Building Britain's Future

DIGITAL BRITAIN

Final Report

JUNE 2009

BIS | Department for Business Innovation & Skills

dcms
department for culture, media and sport

ADEILADU DYFODOL PRYDAIN

PRYDAIN DDIGIDOL

ADRODDIAD TERFYNOL

Mehefin 2009

BIS Yr Adran Busnes Arloesedd a Sgiliau

dcms yr adran dros ddiwylliant, y cyfryngau a chwaraeon

Mae Adroddiad Terfynol Prydain Ddigidol yn un o'r ymrwymiadau polisi canolog yng nghynllun Adeiladu Dyfodol Prydain a rhaglen ddeddfwriaeth ddrafft y Llywodraeth.

Mae Adeiladu Dyfodol Prydain yn nodi'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd i adeiladu gwlad gryfach, decach a mwy llewyrchus. Mae'n canolbwyntio egni a chenhadaeth y Llywodraeth yn y flwyddyn sydd i ddod ar dair blaenoriaeth eglur:

- Diwygio gwleidyddiaeth, diwygio ein democratiaeth;
- Symud o ddirwasgiad i adferiad a chynllunio ar gyfer economi gref yn y dyfodol; a
- Diwygio gwasanaethau cyhoeddus Prydain.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
a'r
Adran Busnes,
Arloesedd a Sgiliau

Prydain Ddigidol

Adroddiad Terfynol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan
yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
a'r Gweinidog dros Gyfathrebu,
Technoleg a Darlledu.

Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2009

Cm 7650

£34.55

© Hawlfraint y Goron 2009

Mae caniatâd i atgynhyrchu'r ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i bod yn cael ei hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Goron biau'r hawlfraint ar y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Lle rydym wedi crybwyll deunydd hawlfraint gan unrhyw drydydd parti bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan y deiliaid hawlfraint priodol.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall ar y deunydd hwn ysgrifennwch os gwelwch yn dda at: Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu e-bostiwch: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 9780101765022 URN 09/1095

Cynnwys

Rhagair gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Mandelson a'r Gwir Anrhydeddus

Ben Bradshaw AS **1**

Cyflwyniad gan yr Arglwydd Carter CBE **3**

Crynodeb Gweithredol **7**

Adnoddir Adroddiad Prydain Ddigidol ar y cyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac mae'n tynnu ar arbenigedd ar draws y Llywodraeth, diwydiant a rheolyddion.

Mae Adroddiad Prydain Ddigidol yn elwa ar arweiniad Bwrdd Llywio gwirfoddol o arbenigwyr yn y diwydiant. Aelodau'r Bwrdd Llywio yw:

Peter Black – Technoleg rwydwaith

Yr Athro Tanya Byron – Amddiffyniad ar-lein

Francesco Caio – Rhwydweithiau'r genhedlaeth newydd

Andrew Chitty – Cynhyrchu/cyfryngau newydd

Barry Cox – Radio digidol

Matthew d'Ancona – Cyfryngau print/cyfryngau newydd

Robin Foster – Cynnwys gwasanaeth cyhoeddus

Andrew Gowers – Yr economi greadigol

Ian McCulloch – Marchnadoedd cyfryngau

Peter Phillips – Fframweithiau rheoleiddio

Stephen Temple – Sbectrwm

Rhagair

Mae angen i Brydain gynllunio ar gyfer rhywbeth mwy nag adferiad yn unig rhag y dirwasgiad byd-eang. Rydym yn wynebu newidiadau sy'n trawsnewid y byd lle mae ein busnesau a'n pobl yn gweithio. Mae'r symudiad o dechnoleg analog i dechnoleg ddigidol yn un o'r newidiadau chwyldroadol hynny. Bydd yn diffinio pa mor gystadleuol fydd ein heconomi ac yn newid yn ddramatig y ffordd y byddwn yn byw ein bywydau.

Fel y dywedasom yn eglur yn ein strategaeth ddiwydiannol Adeiladu Dyfodol Prydain: Diwydiant Newydd, Swyddi Newydd - rydym yn credu fod angen polisi diwydiannol gweithredol ar Brydain os ydym am gynyddu'r manteision a ddaw o'r chwyldro digidol. Byddai gwneud dim neu adael pob dim i'r farchnad yn gadael Prydain ar ei hôl hi. Mae angen ymagwedd eglur ac effeithiol arnom, un sy'n gyson, sy'n sicrhau mynediad llawn, yn darparu sicrwydd rheoleiddiol, caffael cyhoeddus craffach ac yn dangos parodrwydd i ymyrryd lle y bo angen.

Mae Adroddiad Prydain Ddigidol yn gwneud hyn. Mae'n cynnig arolwg strategol o'r sector, gyda rhaglen weithredu yn gefn iddo:

- ategu'r sector preifat a'i gynorthwyo i ddarparu'r seilwaith cyfathrebu modern, effeithiol sydd ei angen arnom, ar sail technoleg ddigidol newydd;
- galluogi Prydain i fod yn ganolfan fyd ar gyfer y diwydiannau creadigol yn yr oes ddigidol, gan ddarparu amrywiaeth gyson ehangach o gynnwys o safon, â chynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn ei phlith, o fewn fframwaith cyfreithiol eglur a theg;
- sicrhau bod gan bobl y galluoedd a'r sgiliau i ffynnu yn yr economi ddigidol, ac y gall pawb gymryd rhan yn y gymdeithas ddigidol;
- bod y llywodraeth yn dal ati i foderneiddio a gwella ei gwasanaeth i'r trethdalwr trwy gaffael digidol a darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy ddulliau digidol.

Bydd y cynigion sydd yn yr adroddiad hwn yn cynyddu cryfderau Prydain mewn sector allweddol ac yn harneisio technoleg newydd i ddarparu Prydain decach a mwy ffyniannus i bawb.

Carem ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i lunio'r adroddiad hwn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar am weledigaeth ac arweinyddiaeth Stephen Carter; roedd ei brofiad a'i wybodaeth yn amhrisiadwy wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Mandelson Y Gwir Anrhydeddus Ben Bradshaw AS

Cyflwyniad

Ar 26 Awst 1768, pan hwyliodd y Capten James Cook tuag Awstralia, aeth 2 flynedd a 320 diwrnod heibio cyn iddo ddychwelyd i ddisgrifio'r pethau a welodd yno.

Ddoe, ar 15 Mehefin 2009, postiwyd 20 awr o gynnwys newydd ar *YouTube* pob munud, trosglwyddwyd 494 ecsabeit o wybodaeth yn ddi-dor ar draws y byd, cyfnewidiwyd dros 2.6 biliwn o funudau ffôn symudol ar draws Ewrop, a gwnaed miliynau o ymholiadau trwy ddefnyddio algorithm Google.

Mae'r Byd Digidol yn realiti yn ein bywydau ni i gyd. Yn yr adroddiad hwn rydym yn tanlinellu pwysigrwydd deall, gwerthfawrogi a chynllunio ar gyfer y realiti hon ac rydym yn ceisio cyflawni'r canlynol:

1. Dadansoddiad o'r lefelau o gyfranogiad, sgiliau a mynediad digidol fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol digidol, gyda chynllun ar gyfer cynyddu cyfranogiad, a strwythurau cyhoeddus mwy cydlynol i ymdrin ag ef.
2. Dadansoddiad o alluoedd ein seilwaith cyfathrebu, adnabyddiaeth o'r bylchau ac argymhellion ar y ffyrdd i'w llenwi.
3. Datgan ein huchelgais ar gyfer twf ein diwydiannau creadigol i'r dyfodol, cynigion ar gyfer fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol dros eiddo deallusol mewn byd digidol, cynigion ar sgiliau a chydnabyddiaeth o'r angen am arloesedd a chefnogaeth gan fuddsoddwyr.
4. Ailddatgan yr angen am ymyrraeth benodol ym marchnad cynnwys y DU, yr hyn fydd ei angen gan y BBC a'i rhan yn y Brydain Ddigidol. Goblygiadau hynny i ddyfodol corfforaeth C4. Dadansoddiad o bwysigrwydd ffurfiau eraill ar newyddion annibynnol a ariennir yn briodol, a'r eglurhad a'r newidiadau sydd eu hangen i'r fframwaith presennol.
5. Dadansoddiad o'r marchnadoedd hyfforddi, ymchwil a sgiliau, a pha faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy o ran y cyflenwyr mewn economi ddigidol lawn.
6. Fframwaith ar gyfer diogelwch digidol ar lefel genedlaethol a rhyng-genedlaethol a chydnabyddiaeth, mewn byd o gysylltedd cyflym, bod arnom angen fframwaith digidol yn

hytrach nag analog.

7. Adolygiad o oblygiadau hyn i gyd i'r Llywodraeth a'r ffordd y mae llywodraethu'n ddigidol yn yr oes wybodaeth yn galw am strwythurau newydd, ffyrdd newydd o ddiogelu, a rheolau newydd ynglŷn â thryloywder, hygyrchedd a rheoli data.

Bu'r lefel o ymwneud gyda'r rhaglen hon yn drawiadol o uchel, o ran ei graddfa a'i safon.

Bu llunio'r Adroddiad hwn hefyd yn cyd-ddigwydd â dirywiad byd-eang llym yn y diwydiannau cyfathrebu a'r cyfryngau. Dylanwadwyd ar yr hyn a gyflwynwyd gan lawer o gyfranogwyr o'r diwydiannau hynny a budd-ddeiliaid eraill gan wasgfa gylchol mewn gwariant ar hysbysebu, cylchrediad papurau newydd, niferoedd cynulleidfa cyfnewidiol, a gostyngiadau ym mhrisiau'r dechnoleg. Dyfnhawyd y cyfnewidioldeb hwn gan newid strwythurol mewn arferion cyfathrebu wrth inni oll dynnu at ddyfeisiau digidol newydd, platfformau amlgyfrwng a gwahanol fathau o gynnwys.

Mae pwysau economaidd yn y tymor byr wedi datgelu meysydd polisi a rheoleiddio y mae gofyn mynd i'r afael â hwy, fodd bynnag, prif nod Prydain Ddigidol yw sefydlu'r DU fel arweinydd ym maes cyfathrebu, gan greu fframwaith diwydiannol a fydd yn llawn harneisio'r Dechnoleg Ddigidol. Bydd difidend digidol y DU yn trawsnewid y ffordd mae busnes yn gweithio, yn gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, yn annog datblygiad seilwaith cyfathrebu yn barod ar gyfer dulliau dosbarthu'r genhedlaeth nesaf ac yn diogelu statws Prydain fel canolbwynt byd i'r cyfryngau ac adloniant. Bwysicaf oll, mae'r dull hwn o weithio yn ceisio cynyddu cyfleoedd digidol i bob dinesydd, lle bydd mynediad i dechnolegau'r 21ain ganrif yn fantais gystadleuol allweddol am genedlaethau i ddod.

Mae'r rhain yn rhagolygon cyffrous felly ar gyfer twf a llwyddiant i'r dyfodol.

Dyma sector lle mae gennym gryfderau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac, os gwneir y penderfyniadau cywir yn awr, lle gall Prydain barhau i fod ar flaen y gad yn y chwyldro digidol.

Yn y sector preifat, er bod angen i ni fuddsoddi ac adeiladu ein seilwaith ar gyfer y genhedlaeth newydd o gyfathrebu, mae'r arian a'r gwerth sydd yn y marchnadoedd hyn yn amlwg yn symud o'r seilwaith at ddatblygu cymwysiadau a gwasanaethau. Ac er bod arnom angen rhwydweithiau di-wifr a mynediad sefydlog yfory, rhaid inni hefyd sicrhau bod gennym y rhaglenni angenrheidiol i ddiogelu'r rhwydwaith, i gadw'r rhwydwaith yn gadarn ac i adfer y rhwydwaith rhag argyfwng.

Os bydd maint y cynnwys digidol yn cynyddu o 10x i 100x dros y 3 i 5 mlynedd nesaf, yn ôl y disgwyl, rydym ar drothwy "clec fawr" yn y diwydiant cyfathrebu a fydd yn cynnig cyfleoedd economaidd a diwydiannol aruthrol i'r DU.

I'r sector cyhoeddus mae'r galluoedd a'r tueddiadau hyn yn rhan gynhenid o'r ateb ariannol i gyllid

cyhoeddus. Bydd rhaglen uchelgeisiol, eglur **Newid y Gwasanaethau Cyhoeddus i Ddigidol (The Digital Switchover of Public Services)** i ddarpariaeth a fydd, ar y cyfan, yn un electronig ac ar-lein, yn datgloi arbedion sylweddol o ran costau, ac ar yr un pryd yn cynyddu lefelau boddhad. Mae angen i ni, a hynny'n fater o frys, ddatblygu model cynhwysfawr a fydd yn cyfrif am gost y gwaith, yn ogystal â'r refeniw a'r arbedion a ddaw yn sgil y seilwaith a ddefnyddir.

Mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad i gyfraniadau hynod o werthfawr nifer o bobl.

Rwy'n ddiolchgar dros ben i Fwrdd Llywio Prydain Ddigidol, i'r nifer o bobl y tu allan i'r Llywodraeth a roddodd o'u hamser a'u profiad, a hynny'n wirfoddol yn aml, am ymwneud adeiladol corff rheoleiddio'r diwydiant, Ofcom, ac am y modd calonogol a didwyll y bu gwledydd ar draws y byd yn rhannu eu harbenigedd a'u profiad â ni.

Carwn hefyd gofnodi fy niolch arbennig i Dominic Morris, David Mahoney, Sam Sharps, Nick French, y Timau Polisi yn fy nwy adran, yr ymgynghorwyr arbenigol a Thîm fy Swyddfa Breifat, sydd wedi helpu i gyflawni'r prosiect hwn dros y flwyddyn a aeth heibio.

Ac yn olaf, diolch am gefnogaeth swyddogion a'm cyd-weinidogion yn DCMS a BIS a, bwysicaf oll, am arweinyddiaeth wleidyddol y Prif Weinidog. Ei adnabyddiaeth ef o bwysigrwydd y sector hwn a'r angen am strategaeth gydlynol a wnaeth y gwaith hwn yn bosibl.

Yr Arglwydd Carter CBE

Pennod 1

Crynodeb Gweithredol

“Dim ond Prydain Ddigidol a all ddatgloi'r dychymyg a'r creadigrwydd a fydd yn sicrhau swyddi hyfedr y dyfodol i ninnau a'n plant. Dim ond Prydain Ddigidol a fydd yn sicrhau rhyfeddodau chwyldro gwybodaeth a allai drawsnewid pob rhan o'n bywydau. Dim ond Prydain Ddigidol a fydd yn ein galluogi ni i ddangos y weledigaeth a'r ynni sydd gennym i lywio'r dyfodol.”
Y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown AS, Y Prif Weinidog

UCHELGAIS: SICRHAU SAFLE'R DU FEL UN O ECONOMÏAU GWYBODAETH DDIGIDOL BLAENLLAW'R BYD

1 Mae'r sector cyfathrebu yn sail i bob dim a wnawn ni fel economi ac fel cymdeithas, a hynny i raddau na fyddai llawer wedi’u dychmygu hyd yn oed chwarter canrif yn ôl. Mae systemau electronig a thechnoleg newydd wedi trawsnewid elfennau craidd diwydiant y DU, ein cyfryngau a'r gwasanaethau cyhoeddus.

2 Yn y Ddinas mae technolegau digidol yn anhepgor i'r biliynau o drafodion a wneir bob dydd gan y gyfnewidfa stoc a'r sefydliadau ariannol. I'r dylunwyr, ymchwilwyr a pheirianwyr yn ein huwch-ddiwydiannau, mae defnyddio cyfrifiaduron i gynhyrchu ac efelychu deunydd a throsglwyddo ffeiliau ar raddfa fawr yn ddibynadwy yn arfau hanfodol i’w crefft, fel y maent bellach ar gyfer unrhyw gwmni sy'n seiliedig ar wybodaeth. Ar y stryd fawr mae archebu stoc, cadw'r stocrestr a'r tiliau arian i gyd yn gwbl ddibynnol ar gyfathrebu electronig.

3 Fel defnyddwyr, rydym yn talu am ryw 90% o'r hyn a brynwn yn y siopau gyda cherdiau sy'n dibynnu ar ddulliau cyfathrebu sy’n defnyddio gwasanaethau gwifrau a di-wifr i weithio. Mae hynny heb son am y £50bn o brynu a gwerthu trwy e-fasnach gan ddefnyddwyr a wneir yn gyfan gwbl ar-lein.

4 Ym maes cludiant, mae amseru goleuadau traffig yn y strydoedd, gweithredu signalau a phwyntiau atal y rheilffyrdd a'r systemau di-wifr sy'n caniatáu i awyrennau i esgyn ac i lanio'n ddiogel i gyd yn galw am systemau cyfathrebu; felly hefyd y grid ynni cenedlaethol sy'n dod â gwres, ynni a golau i'n cartrefi a'n busnesau. Yn y sector cyhoeddus mae ein prifysgolion, ysgolion a llyfrgelloedd yn dibynnu fwyfwy ar gynnwys electronig a chyfoeth y Rhyngrwyd. Mae gan ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol un o'r systemau data a chyfathrebu mwyaf yn Ewrop.

5 I unigolion mae chwyldro tawel wedi dod â chysylltedd di-dor i bob man bron iawn. Mae'r chwyldro hwnnw'n rhychwantu llyfrgelloedd poced personol o gerddoriaeth, cynnwys clyweledol ac, yn gynyddol, llenyddiaeth electronig ar raddfa a fyddai'n anhygoel ddeng mlynedd yn ôl; band eang rhad sy'n galluogi patrymau gweithio sy'n effeithlon ac yn ystyriol i deuluoedd yn sector gwybodaeth yr economi – a band eang sy'n cynyddu o ran cyflymder – lle bydd y genhedlaeth newydd, sydd ar gael yn barod i bron i hanner cartrefi Prydain, yn caniatáu i ni anfon neu dderbyn 200 o ffeiliau cerddoriaeth mp3 mewn pum munud, DVD *Star* Wars cyfan mewn 3 munud a holl weithiau Charles Dickens, wedi'u digideiddio, mewn llai na 10 munud.[1] Mae wedi rhoi mynediad i ni i amrywiaeth eang o rwydweithiau cymdeithasol, gan ein galluogi ni i rannu profiadau a ffeirio a chreu cynnwys. Mae'r chwyldro digidol wedi arwain hefyd at gynnydd anferth ym maint ac argaeledd y cynnwys proffesiynol sydd ar gael. Heddiw, mae'r defnyddiwr Prydeinig nodweddiadol yn treulio bron i hanner ei oriau gwaith yn ymwneud ar un ffurf neu'i gilydd â chynnwys a gwasanaethau'r sector cyfathrebu.

6 Mae'r DU eisoes yn economi ac yn gymdeithas sy'n gweithredu'n ddigidol ac, i raddau sylweddol, yn ddigidol ddibynnol. Nod Adroddiad Prydain Ddigidol yw dangos y ffordd y gall Prydain gynnal ei safle fel economi a chymdeithas ddigidol flaenllaw.

7 Mae sector sy'n sail i gymaint o'n bywydau fel unigolion ac fel cymdeithas yn ddiwydiant o bwys yn ei hawl ei hun. Mae ei union raddfa yn esblygu trwy'r amser. Mae cyflymder y newid, sy'n cymylu'r ffiniau rhwng yr hyn a nodwyd gan ystadegwyr gwladol yn weithgareddau ar wahân ac yn creu meysydd gweithgaredd cwbl newydd, yn ei gwneud hi'n anodd ei mesur. Ond yn ôl y diffiniadau cyfredol mae sectorau Prydain Ddigidol yn cyfrif am bron i £1 ym mhob £10 y mae'r economi gyfan yn eu cynhyrchu bob blwyddyn.

8 Mae Prydain Ddigidol yn enghraifft flaenllaw o'r model newydd o Weithredaeth Ddiwydiannol a nodwyd yn *Building Britain's Future: New Industry, New Jobs* ym mis Ebrill. Mae'n un o'r prif sectorau mawr eu twf hynny y mae ein heconomi'n dibynnu arnynt fwyfwy. Mae gennym nifer o gryfderau cymharol yn y sector hwn. Mae rhai o'r themâu allweddol yn *Building Britain's Future* - seilwaith modern, galluoedd uwchraddedig o ran sgiliau, troi ymchwil ac arloesedd yn gynnyrch a gwasanaethau sy'n ddiguro yn eu marchnad a Llywodraethu craffach, mwy cydgysylltiedig - oll yn themâu sy'n nodweddu **Adroddiad Prydain Ddigidol**.

---

[1] *Copycats? Digital Consumers in the Online Age* – SABIP

9 Mae Gweithredaeth Ddiwydiannol wrth graidd Adroddiad Prydain Ddigidol. Mae'n fater o gymhwyso adnoddau a gwaith llunio polisïau'r Llywodraeth mewn modd bwriadus ar draws y meysydd lle mae polisi cyhoeddus a'r farchnad yn gorgyffwrdd. Mae yna lawer o weithgareddau yn y sector hwn lle nad yw polisi cyhoeddus a'r farchnad yn gorgyffwrdd: mae'r farchnad yn gweithio'n dda ac nid oes unrhyw effeithiau o ran polisi cyhoeddus ehangach. Er nad yw Adroddiad Prydain Ddigidol yn mynd i'r afael â'r rhain i gyd mae llawer, serch hynny, yn bwysig o ran creu gwerth ychwanegol a boddhad defnyddwyr. Yr agwedd yn syml yw bod y sectorau hyn yn gweithio'n dda ac nad oes angen sylwebaeth, ymyrraeth nac ymyriad arnynt.

10 Cyhoeddwyd Adroddiad Interim Prydain Ddigidol gennym ddiwedd mis Ionawr. Roedd hwnnw'n datgan barn ar y sector ynghyd ag agenda ar gyfer Gweithredaeth Ddiwydiannol yn y nifer fawr o feysydd lle mae'r marchnadoedd yn cwrdd â pholisi cyhoeddus. Roeddem wedi nodi pum amcan:

i. Moderneiddio ac uwchraddio ein seilwaith gwifrog, di-wifr a darlledu er mwyn cynnal safle Prydain fel economi ddigidol flaenllaw.

ii. Darparu hinsawdd sy’n ffafriol i fuddsoddi ac arloesi ym maes gwasanaethau, cymwysiadau a chynnwys digidol;

iii. Sicrhau amrywiaeth o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus o safon, yn arbennig o ran newyddion;

iv. Datblygu sgiliau digidol y genedl ar bob lefel; a

v. Sicrhau mynediad cyffredinol i fand eang, cynyddu’r defnydd arno a defnyddio band eang i ddarparu nifer uwch o wasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon.

11 Nod cyhoeddi’r Adroddiad Interim oedd profi a oedd y rhaglen a amlinellwyd gennym yn gywir ac yn ddigon cynhwysfawr, ac i fesur lefel y gefnogaeth i'n ffocws ar y sector hwn. Cafwyd ymateb sylweddol gan amrywiaeth eang iawn o fudd-ddeiliaid i'r Adroddiad Interim, gan amrywio o'r cyhoedd yn gyffredinol i gorfforaethau enfawr. Derbyniwyd dros 250 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol gennym. Ategwyd yr ymatebion hynny gan yr ymwneud ar-lein trwy gyfrwng Fforwm Prydain Ddigidol a gwefannau blogio/rhwydweithio cymdeithasol eraill, ymwneud ffurfiol ym mhob un o’r Gwledydd ac Uwchgynhadledd Prydain Ddigidol yn y Llyfrgell Brydeinig ar 17 Ebrill. Cafwyd hefyd gyfanswm o dros 500 ymgysylltiad dwyochrog rhwng budd-ddeiliaid a Gweinidogion y Tîm Prydain Ddigidol creiddiol.

Anghynadleddau Prydain Ddigidol

Cyfres o ddigwyddiadau ar draws y DU a drefnwyd gan wirfoddolwyr yn fuan wedi Uwchgynhadledd Prydain Ddigidol ar 17 Ebrill 2009 oedd Anghynadleddau Prydain Ddigidol. Eu nod oedd cynhyrchu "ymateb gan y bobl" cynrychioladol a chywain set o gyfraniadau cadarnhaol, realistig ar gyfer yr adroddiad. Yn yr wythnos wedi'r Uwchgynhadledd, ac wedi i dîm Prydain Ddigidol ddangos eu bod yn gwrando, lansiwyd gwefan gyda'r cyfarwyddiadau syml hyn:

“Gall unrhyw un fynychu neu gynnal digwyddiad a'i gysylltu ag Anghynadleddau Prydain Ddigidol, y cyfan fydd rhaid i chi ei wneud yw crynodebu eich trafodaeth a'i chynnal erbyn Mai 13eg 2009! Ydi, mae'r amser yn brin...”

Erbyn Mai 13eg, cafodd deuddeg anghynhadledd eu cynnal, o Glasgow yn y Gogledd i Truro yn y De Orllewin. Anogwyd yr holl gynadleddwyr i ddarllen yr Adroddiad Interim ac roedd y lefel o ymgysylltiad a meddwl dwys ar draws pob digwyddiad yn arbennig. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys trafodaeth rithwir a oedd yn canolbwyntio ar faterion cefn gwlad yng nghyswllt Prydain Ddigidol ac anghynhadledd deuluol a gynhaliwyd yn Tutbury, swydd Derby, yn ogystal â digwyddiadau mawr o dros 50 o bobl yn Llundain a Manceinion.

Galluogwyd ymateb mor chwim gan arfau cyfryngau cymdeithasol rhad fel Yahoo Groups, Twitter, Wikis, blogiau a negeseua gwib. Ychydig yn unig o alwadau ffôn a wnaed gan y trefnwyr. Mae'r broses yn dangos yr hyn sy'n bosibl i Brydain Ddigidol pan fydd yr arfau hyn wedi'u cyfuno â sianelu'r rhwydweithiau a'r cymhellion llac sy'n bodoli eisoes.

12 Darparodd yr ymatebion i'r Adroddiad Interim ystod eang o sylwebaeth a syniadau newydd. Roedd llawer yn dadlau bod angen ffocws ehangach fyth ar y sector nag yr oeddem wedi ei roi iddo yn yr Adroddiad Interim. Roedd yr ymatebion hefyd yn glir bod angen i ni gydnabod grym trawsnewidiol y Rhyngrwyd yn fwy penodol, ac effaith ei allu rhad i dyfu yn unol â'r anghenion a'i natur ryngweithiol ar y ffordd yr ydym ni, fel cymdeithas ac fel economi, yn meddwl ac yn

trefnu ein hunain.

13 Gwelwyd cytundeb cyffredinol â'n dadansoddiad o bwysigrwydd Prydain Ddigidol i'r gymdeithas a'r economi ehangach a chefnogaeth i weithredaeth ddiwydiannol yn y sector allweddol hwn. Ond rhybuddiwyd hefyd y gallai ffocysu'n ormodol ar y sector oeri penderfyniadau a chyd-drafod ynghylch y ffordd i weithredu wrth i'r cyfranogwyr yn y farchnad aros i weld a fyddai cynigion newydd gan y Llywodraeth yn effeithio ar eu sefyllfa ac, os felly, ym mha ffordd. Mae cydnabod y pryder hwnnw wedi effeithio ar yr amserlen yr ydym wedi ei mabwysiadu wrth symud o'r Adroddiad Interim i'r Adroddiad Terfynol: digon hir i gael gorolwg strategol o'r sector ond digon cyflym fel bod unrhyw effaith a fyddai'n oeri gweithgareddau'r farchnad yn cael ei gwtogi.

14 Mae datblygiadau byd-eang dros y misoedd diwethaf wedi dangos nad yw'r ffocws ar y sector cyfathrebu digidol yn perthyn i Brydain yn unig. Mae'r Rhyngrwyd yn ffenomenon byd-eang. Wrth i'r Rhyngrwyd ehangu a chyffwrdd â rhagor o bobl, llawer ohonynt o farchnadoedd sy'n datblygu, mae sialensiau'n dod i'r amlwg o ran llywodraethu, awdurdodaeth a diogelwch. Ein her yw hwyluso rheolaeth y trosglwyddo hwn mewn ffordd a fydd yn cynnal uchelgais sefydlwyr y Rhyngrwyd am ryddid, entrepreneuriaeth ac arloesedd.

15 Darlunnir graddfa fyd-eang y sector cyfathrebu digidol yn briodol iawn gan safle'r sector ymhlith brandiau byd-eang: mae chwech o blith y 10 brand byd-eang uchaf eu gwerth eleni yn y sector digidol, un o Tsieina, un o Brydain a phedwar o America. Adlewyrchir y raddfa a'r pwysigrwydd hynny yn y ffocws a roddir i'r sector gan lywodraethau: mae Awstralia yn creu rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol cyflym gwbl newydd. Mae gwledydd eraill o amgylch Min y Môr Tawel o Japan a Korea i Singapore a Seland Newydd oll yn mabwysiadu rhwydweithiau'r genhedlaeth nesaf. Roedd band eang cyflym a thechnoleg grid clyfar yn rhan bwysig o raglen ysgogi ddiweddar gweinyddiaeth UDA. Mewn mannau eraill yn Ewrop mae'r Almaen, Y Ffindir a Ffrainc oll wedi mabwysiadu band eang cenedlaethol neu strategaethau digidol ehangach.

16 Rydym wedi cyrraedd pwynt ffurfdro o ran y dechnoleg, o ran gallu ac o ran galw. Bydd y gwledydd a'r llywodraethau hynny sy'n hybu eu sector cyfathrebu digidol yn strategol yn ennill mantais sylweddol a hirdymor ar eu cystadleuwyr. Yn Adroddiad Prydain Ddigidol ein bwriad oedd mynegi dadansoddiad cynhwysfawr a chynigion gweithredu a fydd yn galluogi'r DU i fynd bob yn gam gyda'r datblygiadau rhyngwladol yn y sector hwn, a rhagori arnynt.

17 Rydym wedi nodi uchod bwysigrwydd a natur ganolog cyfathrebu digidol i'n heconomi a'n bywydau. Trwy gydol yr Adroddiad hwn rydym yn cynnig 'portreadau' bychain o'r effaith ar wahanol rannau'r gymdeithas. Ond os ydym am gyflawni'r potensial sydd gan Brydain Ddigidol

i'w gynnig, oherwydd rhesymau cymdeithasol ac economaidd fel ei gilydd mae angen i ni sicrhau bod pawb sydd am gyfranogi yn y Brydain Ddigidol yn cael eu galluogi i wneud hynny, a bod ganddynt y gallu i wneud hynny.

18 Rydym wedi cyrraedd trobwynt mewn perthynas â'r byd ar-lein. Mae'n symud o gynnig mantais i'r rhai hynny sy'n rhan ohono at osod anfantais ar y rheiny sydd hebddo, boed hynny o ran mynediad plant i waith cartref er mwyn cystadlu gyda'u cyfoedion, i gynigion a gostyngiadau, biliau cyfleustodau is, mynediad i wybodaeth a mynediad i wasanaethau cyhoeddus. Er gwaethaf yr anfantais gynyddol honno mae sawl rhwystr yn wynebu'r rhai nad ydyn ar-lein: **argaeledd, fforddiadwyedd, gallu a pherthnasedd.**

19 Eir i'r afael yn rhannol â **fforddiadwyedd** trwy gyfrwng cynllun £300m Mynediad Cartref (Home Access) y Llywodraeth i deuluoedd ar incwm isel. Yn rhannol, bydd y farchnad yn mynd i'r afael yn gynyddol â'r mater hwn trwy argaeledd eang dyfeisiau newydd is eu pris, cynlluniau newydd ar gyfer ailgylchu cyfrifiaduron personol i deuluoedd ar incwm isel, neu fand eang symudol newydd rhagdaladwy.

20 Eir i'r afael â **gallu a pherthnasedd** mewn tair ffordd: yn gyntaf, argymhellion adroddiad annibynnol y Farwnes Morris ar sgiliau defnyddwyr TGCh ar gyfer oedolion; yn ail, y Rhaglen Cynhwysiant Digidol (Digital Inclusion Programme) : rydym yn falch i gyhoeddi penodi **Martha Lane Fox** yn **Eiriolwr dros Gynhwysiant Digidol**. Yn drydydd, yr arolwg strategol ar lythrennedd cyfryngol dan arweiniad Ofcom ac, i weithredu hwnnw, y Consortiwm Budd-ddeiliaid sy'n dod i'r amlwg o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n fodlon cyfrannu yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill at gynnydd mewn cyfranogaeth ddigidol. Mae Adroddiad Prydain Ddigidol yn dwyn y ffrydiau hyn ynghyd, gydag ariannu ychwanegol at fesurau galw o du'r defnyddwyr mewn **Cynllun Cyfranogaeth Ddigidol Genedlaethol (National Plan for Digital Participation)** sy'n cyfuno cynnig gwell i gynyddu'r symbyliad i fynd ar-lein, gyda rhwydweithio cymdeithasol, a gyda hyfforddiant sgiliau. Darperir y Cynllun Cenedlaethol trwy gyfrwng rhaglenni cymunedol a lleol sydd wedi eu teilwrio at yr angen ac a fydd yn manteisio ar rwydweithiau sy'n bodoli eisoes. Bydd y rhain yn tynnu ar y gwersi a ddysgwyd yn y cynllun Newid i Deledu Digidol a fu, hyd yma, yn llwyddiant.

21 Mae dwy ran i **argaeledd** band eang: y rhwydwaith priodol heddiw a'r rhwydwaith priodol yfory. **Er mwyn sicrhau y caiff pawb fynediad i rwydwaith hefyd, a manteisio arno, rydym yn cadarnhau ein bwriad i ddarparu'r Ymrwymiad Gwasanaeth Band eang Cyffredinol (Universal Service Broadband Commitment) ar 2Mb yr eiliad erbyn 2012.** Mae modd cyflawni hyn trwy uwchraddio'r rhwydweithiau copr a di-wifr sydd eisoes yn bodoli. **Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth gyhoeddus i rwydwaith yfory fel y gall defnyddwyr sydd yn**

y Traean Olaf (Final Third), y rhai na fydd y farchnad yn eu cyrraedd, yn cael mwynhau band eang y genhedlaeth nesaf. Bydd hwn yn brosiect hirach a fydd yn golygu i bob pwrpas gosod rhwydwaith newydd.

22 Mae'r Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol a'r prosiect Traean Olaf y Genhedlaeth Nesaf (Next Generation Final Third) yn brosiectau ar wahân a dylid sôn amdanynt yn eu tro.

23 **Yn gyntaf, yr Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol (YGC).** Mae dros un ym mhob 10 aelwyd heddiw heb gysylltiad 2Mb yr eiliad. Byddwn yn cywiro hyn trwy ddarparu gwasanaeth cyffredinol erbyn 2012. Yn hyn o beth, mae Ymrwymiad y DU yn arwain Ewrop. Mae ynddo rhyw fesur o gynllunio ar gyfer y dyfodol fel na fyddwn yn wynebu problem eithrio eto wrth i'r farchnad roi band eang y genhedlaeth nesaf ar waith. Mae'r YGC hefyd yn gam hanfodol os ydym am symud at y newid i ddigidol i ddarparu mwy a mwy o'n gwasanaethau cyhoeddus.

24 Darperir yr Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol trwy gyfrwng cymysgedd o wahanol fathau o dechnoleg: DSL, ffibr i'r cwpwrdd yn y stryd, di-wifr ac, o bosib, ategiad lloeren. Caiff ei ariannu allan o £200m o gyllid cyhoeddus uniongyrchol, gyda chymorth ychwanegol o bum ffynhonnell arall: enillion masnachol trwy gontractau tendr a chynllunio, cyfraniadau mewn da gan bartneriaid preifat, cyfraniadau gan gyrff sector cyhoeddus eraill yn y Gwledydd a'r rhanbarthau a fydd yn elwa ar y cysylltedd ychwanegol, y defnyddiwr yn uniongyrchol ar gyfer uwchraddio yn y cartref, a gwerth ymrwymiadau cwmpas ehangach ar weithredwyr gwasanaethau symudol yn sgil y pecyn sbectrwm di-wifr ehangach. Darperir yr Ymrwymiad trwy'r Grŵp Caffael a Chynllunio'r Rhwydwaith (Network Design and Procurement Group), gyda phenodiad Prif Swyddog Gweithredol yn yr hydref. Byddwn hefyd yn trafod gydag Ymddiriedolaeth y BBC ar y strwythur a fydd yn rhoi iddynt amlygrwydd priodol yn y broses o ddarparu'r defnydd a wneir ar danwariant y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol (Digital Switchover Help Scheme) a gyflawnir erbyn 2012.

25 Mae seilwaith cyfathrebu electronig cyffredinol y DU - ar gyfer band eang a llais symudol a sefydlog, ar gyfer cyfathrebu corfforaethol, teledu digidol a radio sain yn cymharu'n ffafriol gydag unrhyw seilwaith yn y byd. Ond mae'r pwysau yn dechrau dangos: mae tanfuddsoddi mewn rhwydweithiau tynnu'n ôl - y filltir ganol fel y'i gelwir - mewn rhwydweithiau sefydlog yn dod i'r amlwg fwyfwy. Yn y maes symudol, bydd llwyddiant band eang ynddo'i hun yn arwain at ragor a rhagor o dagfeydd yn y sbectrwm presennol. Mae gwledydd eraill yn buddsoddi'n drwm i uwchraddio eu rhwydweithiau er mwyn manteisio ar y newid yn y dechnoleg. Fel ein seilweithiau ynni a chludiant gall amrywiadau bychain o ran perfformiad gael effeithiau ymledol sylweddol a chostau sylweddol i'r economi ehangach.

26 **Yn ail, prosiect Traean Olaf y Genhedlaeth Nesaf.** Mae rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf, yn ogystal â gemau ac adloniant fideo manylder uchel confensiynol (sydd, oherwydd platfform lloeren llwyddiannus y wlad hon yn sbardun llai pwysig yma nag yw mewn rhai marchnadoedd eraill) ond hefyd gymwysiadau mwy chwyldroadol. Bydd y rhain yn cynnwys telebresenoldeb, a fydd yn caniatáu patrymau gwaith mwy hyblyg, e-ofal iechyd yn y cartref ac ar gyfer busnesau bychain manteision cynyddol mynediad i gyfrifiadura cwmwl sy'n torri costau'n sylweddol ac yn caniatáu arloesedd llawer cyflymach ym maes cynhyrchion a gwasanaethau. Bydd band eang y genhedlaeth nesaf yn caniatáu arloesedd a manteision economaidd na fedrwn eu rhagweld heddiw. Rhoddodd band eang y genhedlaeth gyntaf hwb o ryw 0.5%-1.0% y flwyddyn i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP).

27 Yn ystod y misoedd diwethaf gwelodd y DU gyflwyno egnïol, dan arweiniad y farchnad, ar fand eang sefydlog y genhedlaeth nesaf. Erbyn yr Haf sydd i ddod bydd cyflymder o 50Mb yr eiliad ac uwch ar gael i bob aelwyd lle mae rhwydwaith cebl cenedlaethol Virgin Media Ltd: rhyw 50% o gartrefi'r DU. Yn sgil penderfyniadau gan y rheolydd, Ofcom, sydd wedi cynyddu sicrwydd rheoleiddiol, anogwyd BT Group plc gan y mesurau lwfansau cyfalaf yn y flwyddyn gyntaf yng Nghyllideb 2009 a'r angen i ymateb yn gystadleuol i gyflymu eu cynlluniau am y cyfuniad o ffibr i'r cwpwrdd a ffibr i'r cartref. Bydd rhwydwaith gwell BT ar gael yn y 1,000,000 gyntaf o gartrefi yn eu rhwydwaith. Bydd y cynllun £100m Rhanbarth Ddigidol Swydd Efrog (Yorkshire Digital Region) a gymeradwywyd yng Nghyllideb 2009 hefyd yn cynnig man profi rhanbarthol defnyddiol i rwydweithiau digidol y genhedlaeth nesaf.

28 **Mae'r Llywodraeth yn credu y derbyniwyd y ddadl ei bod hi'n ddymunol bod rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf o'r fath ar gael i fwyafrif llethol poblogaeth y DU.** Cafodd ei hargyhoeddi hefyd bod economeg rhoi rhwydweithiau ar waith, boed y rheiny'n rhai sefydlog neu'r genhedlaeth nesaf o rai symudol, yn golygu y bydd band eang gwirioneddol gyflym i'w gael yn nwy ran o dair o'r farchnad yn y degawd nesaf gan adael y 'traean olaf' i gael eu gwasanaethu gan fand eang y genhedlaeth bresennol yn unig. Ni fyddai hyn yn ddymunol. Yn yr un modd, byddai'n rhaid i unrhyw gynllun cymhorthdal gael ei dargedu'n ofalus er mwyn osgoi ystumio'r gystadleuaeth neu roi cymhorthdal i weithgareddau y byddai gweithredwyr masnachol yn ymgymryd â hwy fel arall.

29 Yn groes i bob cyfleustod arall neu, yn wir, wasanaethau cyfryngau, mae prisiau telathrebu wedi disgyn yn sylweddol mewn termau real dros gyfnod o flynyddoedd. Heddiw mae marchnad manwerthu telathrebu'r DU ymhlith y rhai mwyaf cystadleuol yn Ewrop. Mae defnyddwyr yn mwynhau naill ai'r prisiau isaf neu brisiau sydd ymhlith y rhai isaf mewn unrhyw farchnad Ewropeaidd o bwys, gan ddibynnu ar eu patrymau defnyddio. Mae'r fasged ar sail costau prisiau cyfanwerth ar gyfer rhwydwaith copr heddiw wedi disgyn o £8 y llinell y flwyddyn mewn termau real er 2005. Yn ystod yr un cyfnod disgynnodd y pris manwerthu ar gyfer cyfuniad o fand eang a llais o ryw £90 y flwyddyn mewn termau real.

30 **Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r ffordd decaf a mwyaf effeithlon o sicrhau bod gan fwyafrif llethol y wlad fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf yw rhannu peth o'r arbediad hwnnw a chreu Cronfa Cenhedlaeth Nesaf annibynnol ar sail tâl atodol o 50 ceiniog y mis ar bob llinell copr sefydlog. Bydd y Gronfa ar gael ar sail tendr i unrhyw weithredydd i'w ddarparu a bydd yn cynnig cymhorthdal rhannol ar gyfer rhoi ar waith fand eang y genhedlaeth nesaf i'r 'traean olaf' o gartrefi a busnesau bychain, gan ddod â chost y darparu cychwynnol i'r un lefel ag y bydd gweithredwyr yn ei wynebu yn rhannau masnachol economaidd y farchnad.**

31 Yn **ein seilwaith di-wifr**, mae Prydain Ddigidol yn gosod tri amcan: yn gyntaf, trosglwyddo cyflym i fand eang symudol cyflym y genhedlaeth nesaf; yn ail, symud tuag at gwmpas gwasanaeth cyffredinol o ran 3G a Gwasanaeth Symudol y Genhedlaeth Nesaf, cwmpas gwasanaeth dibynadwy trwy'r rhwydwaith trenau drwyddo draw a chwmpas gwasanaeth symudol ar reilffordd danddaearol Llundain; yn drydydd, cynnal marchnad symudol hynod o gystadleuol.

32 Cafodd cynnydd tuag at rwydweithiau symudol y genhedlaeth nesaf a gwell cwmpas gwasanaeth eu rhwystro gan wahanol amgylchiadau a chymhellion y gweithredwyr symudol a fodolai eisoes. I fynd i'r afael â'r rhain, cynigiodd Adroddiad Interim Prydain Ddigidol Raglen Moderneiddio'r Sbectrwm. Penododd y Llywodraeth Frocer Sbectrwm Annibynnol i hwyluso ateb. Cyhoeddwyd ei adroddiad annibynnol ym mis Mai. Mae'r Llywodraeth yn derbyn elfennau hanfodol ei adroddiad, sef:

- clirio prydlon ar y band sbectrwm 800MHz sy'n cael ei ryddhau gan Newid i Ddigidol ym maes teledu;
- ei gyfuno gyda rhan fwyaf y band ehangu 3G (fel y'i gelwir) mewn un ocsiwn o flociau 10MHz o led o'r sbectrwm; ac

- ystwytho amserol ar sbectrwm symudol 2G sydd eisoes yn nwylo'r gweithredwyr sy'n bodoli'n barod, ynghyd â chapiau ar faint o'r sbectrwm y caiff gweithredwyr sy'n bodoli eisoes eu prynu a gofynion cwmpas gwasanaeth ar y trwyddedau 800MHz, gan fod y sbectrwm hwnnw'n arbennig o addas at gwmpas gwasanaeth yng nghefn gwlad.

33 Ond mewn rhai meysydd allweddol, yn arbennig maint a strwythur y mecanwaith capio a fydd yn hyrwyddo cystadlu orau, daeth y Llywodraeth i gasgliadau gwahanol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi datgan proses o Gyflafareddu Technegol Arweiniol ar yr ystwytho ar y sbectrwm 2G.

34 Amcan y cynigion hyn yw sicrhau bod pob un o'r pum gweithredydd sy'n bodoli eisoes ac ymgeiswyr newydd posib yn cael cynnig gyda chyfle realistig o gael digon o sbectrwm i adeiladu ac ehangu rhwydwaith symudol y genhedlaeth nesaf a fydd yn gallu rhoi cyflymder band eang o 50Mb yr eiliad yn y prif farchnadoedd yn y trefi a'r maestrefi, gan ddisgyn efallai i 4-5Mb yr eiliad yn yr ardaloedd mwy gwledig. Ar y un pryd, ein hamcan yw sicrhau y caiff defnyddwyr fwynhau fwy neu lai'r un radd o gystadlu brwd yn y farchnad symudol yn y genhedlaeth nesaf ag y maent wedi elwa arni hyd yma.

35 **Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid gwneud trwyddedau 3G y gweithredwyr sy'n bodoli eisoes yn rhai am gyfnod amhenodol yn hytrach na chyfnod penodedig (er y bydd angen iddynt dalu AIP i adlewyrchu gwerth ariannol y drwydded) er mwyn rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddi ac fel cymhelliad tuag at roi ar waith wasanaeth cyffredinol).** Cyn 2012/13 mae hyn yn debygol o ddarparu cyflymder o fewn adeilad o ryw 1Mb yr eiliad ond gallai hwn gael ei chwyddo gan erial allanol i wneud cyfraniad o bwys i'r Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol ehangach. Mae'r Llywodraeth ac Ofcom yn agored i gynigion ymarferol gan y gweithredwyr ar rannu'r rhwydwaith, yn arbennig er mwyn cyflawni lled-gyffredinolrwydd.

36 Erys rhai o'r manylion i'w gwirio cyn yr Haf, ond serch hynny **bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniad terfynol a fydd yn cyfarwyddo Ofcom (os felly, byddwn yn ymgynghori ym mis Medi ar ba ffurf fydd i Gyfarwyddyd i Ofcom, er mwyn rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i'r rheolydd gael gweithredu'r cynigion hyn)**.

37 Mae natur ganolog ein seilwaith cyfathrebu i'n heconomi a'n cymdeithas wedi tyfu ers llunio Deddf Cyfathrebu 2003. Rydym hefyd wedi symud o oes gymharol sefydlog o rwydweithiau copr a darpariaeth gynnar ar 3G i sefyllfa lle mae'r buddsoddi mewn amryfal fathau o rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf yn prysur gyflymu. I'r diben hwn cred y Llywodraeth **y dylid moderneiddio dyletswyddau Ofcom** mewn dwy ffordd**.** Yn gyntaf, dylai fod dyletswydd

cyffredinol penodol gan Ofcom i annog buddsoddiad fel ffordd o hybu buddiannau defnyddwyr, ochr yn ochr â'i ddyletswydd i hybu cystadlu lle y bo'n briodol. Rydym hefyd yn cynnig rhoi dyletswydd i Ofcom a fydd yn cyfateb ym myd cyfathrebu i'r llythyr gan Lywodraethwr Banc Lloegr, i roi gwybod i'r Llywodraeth am unrhyw ddiffygion sylweddol yng nghwmpas gwasanaeth, gallu a chadernid seilwaith cyfathrebu'r DU ac i adrodd bob dwy flynedd ar gyflwr y seilwaith hwnnw.

38 Mae gofyn cael cyfarwyddyd clir gan y Llywodraeth ar un agwedd arall ar ein seilwaith cenedlaethol, sef **radio sain**. Mae natur amrywiol a hyblyg y cyfrwng yn ei osod ar flaen y gad ym maes cydgyfeiriant rhwng dyfais a phlatfform. Mae ganddo sawl llwybr i'r digidol, ar gefn platfformau eraill - y Rhyngrwyd, ffonau symudol, teledu darlledu digidol, lloeren a chebl. Ond fel cyfrwng mae'n fwy na dim ond ffrwd sain arall. Yr apêl i'r gwrandäwr yw ei fod yn gyfrwng cludadwy, agos-atoch ac amgylchynol. Nid oes modd hawdd i ddarparu'r agweddau hynny oni fo gan y radio ei gyfrwng digidol penodedig ei hun - DAB - ac mae 9 miliwn o setiau ar gyfer hyn yn bodoli eisoes mewn cartrefi a cheir.

39 **Mae'r Llywodraeth yn derbyn y dadansoddiad hwnnw ac yn cynnig, ynghyd â'r diwydiant, y gadwyn gyflenwi a defnyddwyr, y broses o Uwchraddio Digidol fel bod ein holl orsafoedd darlledu radio cenedlaethol yn rhai DAB yn unig o ddiwedd 2015.** I'r diben hwn, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r BBC i ymestyn y cwmpas gwasanaeth DAB cenedlaethol fel ei fod yn cymharu o leiaf gyda chwmpas gwasanaeth radio FM; ac i'r gadwyn gyflenwi ddarparu ystod o setiau radio DAB ar y pwynt pris allweddol hwnnw o dan £20 sy'n golygu ei bod hi'n gwneud synnwyr ariannol i brynu set newydd. **Bydd y Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant ceir, a gyda'r Comisiwn ac aelod-wladwriaethau eraill allweddol yn Ewrop (mae un o'r rhain eisoes wedi crybwyll ei bwriad i wahardd setiau radio analog-yn-unig mewn cerbydau o 2013 ymlaen) ar y cynllun pum pwynt a nodir yn yr Adroddiad Prydain Ddigidol hwn i alluogi rhan helaethaf y parc cerbydau i gael ei throsi i ddigidol cyn 2015, gyda throswyr rhad i'r gweddill.**

40 Nododd Adroddiad Interim Prydain Ddigidol feini prawf y dylid cwrdd â hwy er mwyn pennu amseru'r Uwchraddio Digidol. Bydd y Llywodraeth yn disgwyl i Ofcom fonitro'r cynnydd tuag at y meini prawf hynny yn flynyddol ond mae'n credu y bydd eglurder rhoi dyddiad ynddo'i hun yn cyflymu'r cynnydd tuag at y meini prawf. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cynnal dadansoddiad cost a budd llawn ar Uwchraddio Digidol ym maes radio gan gynnwys dadansoddi a oes yna achos dros estyn cymorth i grwpiau penodol, fel y bu gyda'r Newid i Deledu Digidol.

41 Gallai Uwchraddio Digidol hefyd arwain at weld gwasanaethau radio cymunedol, hynod leol, yn ffynnu, gan ddod â'r gorsafoedd masnachol lleol lleiaf a'r sector radio cymunedol cynyddol ar radio FM at ei gilydd. Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr achos dros beth ystwytho ar y sector

radio cymunedol. Erbyn cyfnod yr Uwchraddio Digidol, bron na fyddai angen ailadeiladu gwasanaeth analog FM ei hun, fel cyfrwng cenedlaethol o safon y brif ffrwd: mae'r seilwaith yn 30 mlwydd oed mewn mannau ac yn dechrau dirywio. Mae ailadeiladu cenedlaethol gwerth £200m yn anymarferol i sector bychan sy'n mudo tua'r digidol beth bynnag. Ond gallai gwariant cyfalaf llai o lawer ar ofal, cynnal a chadw gynnal y seilwaith i'r gymuned a'r haen hynod leol o radio am sawl blwyddyn i ddod.

42 Yn ein **diwydiannau cynnwys creadigol** bu Prydain ers sawl blwyddyn yn cyflawni mwy na'r disgwyl o ystyried ei maint ar lwyfan byd. Mae un o bob 10 gwerthiant albwm uchaf ar y farchnad yn UDA gan artistiaid o Brydain. Mae traean o werthiant fformatau teledu ledled y byd yn deillio o gwmnïau cynhyrchu Prydeinig. Mae calon greadigol llawer o fusnesau byd-eang ym maes CGI, hysbysebu, gemau, cyhoeddi, dylunio neu fusnesau creadigol yr economi wybodaeth yn curo ym Mhrydain yn hytrach nag yn un man arall. Serch hynny mae'r trosglwyddo i ddigidol yn gwyrdroi hen fodelau busnes yn gyflymach o lawer nag y mae'r rhai newydd yn dod yn eu lle.

43 Mae copïo cynnwys digidol yn gynyddol hawdd a pherffaith yn ei gwneud hi'n anos i bennu tâl am hawliau creadigol. Bu twf y gwefannau cymharu ar y Rhyngrwyd yn beth ffafriol i hysbysebwyr, sy'n gweld ffyrdd newydd rhad ac uniongyrchol o gyrraedd y bobl berthnasol. Mae'n dda hefyd i ddefnyddwyr, gan ddarparu mynediad i rwydweithiau cymdeithasol, gwasanaethau gwybodaeth am ddigwyddiadau, mapio, storio, e-bost a gwasanaethau chwilio rhad ac am ddim i greu a mwynhau cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddwyr, ac amryw o gymwysiadau eraill. Ond nid yw'r gwefannau cymharu hyn ar y cyfan yn ariannu creu cynnwys proffesiynol ffurf hir. Y canlyniad anfwriadol yw bod rhan sylweddol o'r refeniw hysbysebu y telir amdano a arferai ariannu cynnwys ffurf hir yn lleol bellach yn ariannu gwahanol fathau o wasanaethau a chymwysiadau i ddefnyddwyr neu yn cael eu hailgartrefu ar wefannau cymharu'r rhyngrwyd byd-eang ar ffurf elw i'r cyfranddalwyr sydd y tu ôl i'r modelau busnes gweddnewidiol hyn.

44 Mae yna nodweddion da a nodweddion anfwriadol wael i'r newidiadau hyn. Ond maent yn rhai o ffeithiau'r oes ddigidol. Y ffordd yr awn i'r afael â hwy ar y cyd fydd yn pennu pa mor effeithiol y bydd llawer o'n diwydiannau creadigol yn trosglwyddo i'r byd cwbl ddigidol.

45 Mewn perthynas â hawliau, **mae'r Llywodraeth yn credu mai dwyn yw lladrata eiddo deallusol er elw a chaiff ei erlyn yn unol â hynny trwy'r gyfraith droseddol.** Mae trosedd sifil cymryd eiddo deallusol rhywun arall neu ei drosglwyddo i eraill trwy rannu ffeiliau heb unrhyw dâl yn gydnabyddiaeth, a bod yn blaen, yn anghywir. Serch hynny mae'r Llywodraeth

hefyd yn credu, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu, y byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl, o gael dewis rhesymol, beidio â drwgweithredu na thorri'r gyfraith. Mae tri amcan felly i bolisi'r Llywodraeth. Yn gyntaf, darparu fframwaith a fydd yn annog twf marchnadoedd cyfreithlon ar gyfer lawrlwytho sy'n rhad, yn gyfleus ac yn hygyrch i ddefnyddwyr.

46 Yn ail, annog mentrau addysg a gwybodaeth addas, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n gyfreithlon ac yn anghyfreithlon. Ac yn drydydd rydym yn amcanu darparu ar gyfer ymateb graddedig gan ddeiliaid hawliau ac ISPau fel y gallant ddefnyddio'r gyfraith sifil hyd yr eithaf i atal y defnyddwyr digymrodedd hynny sy'n fwriadol barhau â'u gweithgareddau anghyfreithlon. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu darparu yn y lle cyntaf i Ofcom gael dyletswydd i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn rhannu ffeiliau'n anghyfreithlon trwy osod dau ymrwymiad penodol arno: rhoi gwybod am weithgareddau anghyfreithlon ac, i droseddwyr cyson, proses trwy'r llysoedd o ryddhau hunaniaeth ac achos sifil. Mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu ar gyfer mesurau technegol trosiannol gan ISPau, megis lleihau'r lled band neu brotocol rhwystro, os rhoddwyd cynnig rhesymol ar y ddau brif ymrwymiad ond y gwelwyd, yn groes i'r disgwyl, nad oeddent yn gweithio o fewn cyfnod rhesymol sydd eto heb fod yn rhy hir.**

47 Yn rhan o awydd y Llywodraeth i annog mynediad rhad ond cyfreithlon gan ddefnyddwyr i gynnwys digidol, byddwn hefyd yn gwneud rhai newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol o amgylch trwyddedu hawlfraint, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau fel y rheiny sy'n ymwneud â'r hyn a elwir yn weithiau amddifad ac felly gynorthwyo marchnadoedd digidol ar gyfer y gweithiau hynny i ddatblygu.

48 Mae newidiadau sylfaenol i fodelau analog sy'n bodoli eisoes ar hawliau, hawlio tâl a gallu diogelwch personol yn galw am ailfeddwl yn llwyr ynghylch y modelau busnes. Bydd y sector preifat yn gwneud ei waith ymchwil ei hun. Ond fel y nodwyd yn *Building Britain's Future* mae gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg ran fawr a chynyddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag **ymchwil ac arloesedd gydweithredol a chyn-gystadleuol** mewn sectorau sy'n allweddol i'r economi. Mae Prydain Ddigidol yn un o'r rhaglenni craidd ar gyfer y Bwrdd Strategaeth Technoleg sydd wedi ymrwymo i roi £30m i ymchwil yng nghyswllt Prydain Ddigidol ac isafswm o £10m i gynlluniau arloesedd penodol. Byddant yn defnyddio rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf yn **feysydd profi** i alluogi darparwyr seilwaith, perchnogion cynnwys a defnyddwyr i ddod at ei gilydd i dreialu prosiectau arloesol ar feicrodaliadau a dulliau eraill o hawlio tâl am gynnwys digidol, modelau hawliau newydd a dulliau newydd o sicrhau diogelwch digidol personol.

49 Nid yw cynnwys creadigol yn gyfyngedig i ddiwydiannau analog traddodiadol y celfyddydau perfformio, ffilm a darlledu. Mae gwledydd eraill fel Canada yn ymestyn y model o ostyngiadau

treth y tu hwnt i'r diwydiant ffilmiau i'r bydoedd rhyngweithiol ac ar-lein. Mae gan CGI, gemau electronig ac efelychu hefyd ran o bwys yn ecoleg cynnwys digidol Prydain ac yn ein cystadleurwydd ar y lefel ryngwladol. Mae gan bob un o'r rhain lawn gymaint o allu â'r sectorau mwy traddodiadol, fel ffilm, i'n denu i ymgysylltu â hwy ac i adlewyrchu ein nodweddion diwylliannol penodol. Efallai yn y dyfodol y bydd iddynt berthnasedd diwylliannol lawn mor bwysig ag sydd i ffilmiau heddiw. **Mae'r Llywodraeth felly wedi ymrwymo i gydweithio gyda'r diwydiant i gasglu ac i adolygu'r dystiolaeth dros ostyngiadau treth er hyrwyddo cynhyrchu cynaliadwy ar gyfer gwerthu gemau fideo diwylliannol Brydeinig ar-lein, neu yn gorfforol.** Bydd y gwaith hwn yn cydbwyso unrhyw gefnogaeth bosibl gyda'r angen am gystadleuaeth deg a sichrau gwerth am arian i drethdalwyr.

50 Roedd man cychwyn ymyriadau polisi cyhoeddus y DU â'r farchnad yn y byd analog torfol. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r lle sydd i ymyriad a'r newid yn y math o ymyriad wrth i ni symud o'r byd analog i'r byd cyfan gwbl ddigidol. Credwn fod hyn yn codi pedwar cwestiwn allweddol mewn perthynas ag ymyriad cyhoeddus: yn gyntaf rhan esblygol y BBC yn yr amgylchfyd newydd hwn; yn ail, rôl a chylch gwaith newidiol corfforaeth Channel 4 fel gwrthbwynt gwasanaeth cyhoeddus amlgyfrwng i'r BBC; yn drydydd, a ydym yn cael y gorau gan ein brandiau cynnwys a noddir yn gyhoeddus, neu yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn weladwy; ac yn bedwerydd a oes yna unrhyw gategorïau o gynnwys y tu hwnt i newyddion, a ddilysir gan yr Adroddiad hwn fel categori arbennig, a allai gyfiawnhau ymyriad cyhoeddus.

51 Mae'r newidiadau i'r farchnad fasnachol yn golygu bod BBC cryf, hyderus ac annibynnol yn fwy allweddol nag erioed. Yr ymyriad â'r farchnad sy'n cynnal y BBC yw'r ymyriad mwyaf arwyddocaol ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, a dylai barhau i fod felly. **Mae'r Llywodraeth yn cefnogi setliadau amlflwydd i'r BBC i'w alluogi i gynllunio o flaen llaw ac i weithredu mewn modd sy'n annibynnol ar bwysau gwleidyddol o ddydd i ddydd. Mae angen i rôl y BBC esblygu i fod yn bartner cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gydag ystod ehangach o gyrff cyfryngau ac yn alluogydd i Brydain Ddigidol.** Mae ei raddfa a'i gyllid yn golygu ei fod wedi symud yn llwyddiannus i mewn i'r byd ar-lein, ar-gais a chwilio. Ond oherwydd ei raddfa a'i effaith ar y farchnad a gallu eraill i hawlio tâl am wasanaethau yn yr amgylchedd digidol mae galw i Ymddiriedolaeth y BBC fod ar ei gwyliadwriaeth, yn arbennig mewn perthynas â'r cynigion am wasanaethau eraill, neu ddyfeisiau newydd fel yr heibrid darlledu-band eang *Project Canvas*.

52 **Mae C4C yn llai o lawer na'r BBC ac felly hyd yn hyn wedi'i wreiddio mewn darlledu i raddau helaethach. Mae angen cylch gwaith wedi'i foderneiddio arno a fydd yn ategu'r camau y mae wedi dechrau eu cymryd i fyd cynnwys amlgyfrwng trwy 4IP.** Gallai C4C gynyddu ei ffocws ar ddulliau ar-lein is eu cost fesul uned i ddarparu dibenion cyhoeddus, ac

mae ganddo ran allweddol i'w chwarae wrth bartneru gyda chyrff diwylliannol eraill (yn yr un modd ag y mae wedi bod yn bartner blaenllaw i'r sector annibynnol). Mae'r Llywodraeth wedi edrych yn fanwl ar dri dewis strwythurol eang i C4C: menter strategol ar y cyd rhwng C4C a BBC Worldwide; uno C4 a phartner yn y sector preifat gyda rhan helaethaf y berchenogaeth mewn dwylo cyhoeddus; neu C4 annibynnol gyda chylch gwaith newydd fydd yn canolbwyntio mwy ar wasanaethau ar-lein.

53 Daeth y Llywodraeth i'r casgliad na fyddai modd sicrhau y byddai preifateiddio lleiafrifol, hyd yn oed ar delerau a fyddai'n rhoi cyllid ychwanegol yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn darparu'r amcanion polisi cyhoeddus craidd yn y tymor hir. Diystyrodd y Llywodraeth gyllid uniongyrchol gan y Trysorlys i C4, o ystyried blaenoriaethau eraill ym maes gwariant cyhoeddus. Byddai perthynas strategol rhwng BBC Worldwide/C4 yn galw am wahanu strwythurol pellach i BBC Worldwide. Mae angen gwaith pellach ar hynny, ac o bosib byddai'n golygu newid telerau caffael hawliau C4 (a fyddai wedi cael canlyniadau ehangach i'r drefn hawliau yn y DU a'r sector cynhyrchu). Serch hynny mae'r gwaith hwn wedi datgelu'r disgwyliad y ceir mentrau masnachol pur rhwng C4C a BBC Worldwide sydd ar hyn o bryd yn dal i gael eu trafod.

54 Yn ei Adolygiad Statudol, nododd Ofcom amrywiaeth o gynnwys lle'r oedd bylchau yn narpariaeth y farchnad a lle y credai fod lluosi'r ddarpariaeth, y tu hwnt i'r BBC, yn amrywio rhwng y dymunol a'r hanfodol, gan gynnwys deunydd i blant hŷn, ac yn arbennig felly newyddion yn y Gwledydd, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn yn ganolog i ddemocratiaeth ac atebolrwydd cyrff cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn croesawu dadansoddiad trwyadl Ofcom. Mae croeso i bartneriaethau mewn da y BBC. Ond ar eu pennau'u hunain mae'n debyg iawn na fyddant yn ddigon i gwrdd â graddfa'r her sy'n wynebu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig ym maes newyddion lleol, rhanbarthol a'r Gwledydd lle mae agendâu newyddion cystadleuol ac ymholgarwch newyddiadurol yn ganolog i luosrywiaeth.

55 Mae'r cyfuniad o anghenion polisi cyhoeddus ac amgylchiadau'r farchnad yn golygu bod angen i ni holi a oes angen ariannu. Ffi'r Drwydded Deledu yw'r prif ymyriad ar hyn o bryd ar gyfer cynnwys a dyma'r ffynhonnell fwyaf priodol ar gyfer yr ariannu hwn. Bydd y Llywodraeth felly yn ymgynghori'n agored ar opsiwn Elfen Gystadladwy Gynwysedig yn Ffi'r Drwydded Deledu, gan ddwyn ymlaen yr elfen bresennol a glustnodwyd ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a Marchnata (tua 3.5% o Ffi'r Drwydded) wedi 2013. Byddai hyn yn annibynnol ar y lefel lle gosodid Ffi'r Drwydded o 2013 ymlaen. Mae'r Llywodraeth yn agored i gynigion eraill ar gyfer ariannu yn y broses ymgynghorol.

56 Mae angen i unrhyw ariannu fod yn gystadladwy, ac wedi'i ddyrannu yn erbyn meini prawf

eglur ynghylch cwmpas, cyrraedd a safon gan gorff hyd braich. Un flaenoriaeth gynnar yw i gonsortia newyddion a ariennir yn annibynnol ddarparu ffrwd annibynnol o wasanaethau amlgyfrwng a newyddion darlledu gan ddefnyddio slotiau darlledu newyddion rhanbarthol Trwyddedeion Sianel 3 yn un dull o ddosbarthu. Mae consortia yn debygol o allu cynhyrchu newyddion mewn modd mwy cost-effeithiol na Thrwyddedeion presennol Sianel 3 sydd ag asedau a gynlluniwyd ar gyfer oes wahanol. Gallai hyn esgor ar fwy o fuddsoddi mewn newyddiaduraeth, hel newyddion a dosbarthu aml-gyfryngol a syndicetiad na heddiw, gan godi safon y newyddion yn y Gwledydd, yn rhanbarthol ac yn lleol.

57 **Bydd y Llywodraeth yn trafod gydag Ymddiriedolaeth y BBC sut y gall yr hyn sy'n weddill o'r tanwariant sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun Cymorth Digidol, ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i ariannu'r Ymrwymiad Gwasanaeth Band Eang Cyffredinol gael ei ddefnyddio i ariannu rhaglenni peilot rhwng hyn a 2012.**

58 Yng nghyswllt y wasg ranbarthol a lleol ar-lein ac all-lein, gwahoddodd Adroddiad Interim Prydain Ddigidol yr OFT, ar y cyd ag Ofcom, i adolygu'r ffordd y gweithredir y drefn uno cyfryngau papurau newydd. Mae casgliadau'r OFT, a gyhoeddwyd gyfochr â'r adroddiad hwn, yn cydnabod y newidiadau strwythurol a chylchol sylweddol iawn sy'n wynebu cyfryngau lleol a rhanbarthol. Mynegodd y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) nifer o eglurhadau o ran gweithredu'r drefn a ddylai fod o gymorth i'r sector ac mae'n cynnig diwygio ei chanllawiau er mwyn sicrhau y cynhelir Asesiad Cyfryngau Lleol newydd, gan Ofcom, mewn achosion sy'n ymwneud ag uno cyfryngau lleol sy'n cynnwys un neu fwy o bapurau newydd lleol neu ranbarthol sy'n codi pryderon *prima facie* ynghylch cystadleuaeth.

59 Ar gyfer Trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 cred y Llywodraeth fod achos cryf dros ystwytho cynyddol, fel y gallant symud tuag at ddatblygu'n rhwydweithiau masnachol llawn, yn gwasanaethu buddiannau eu cyfranddalwyr wrth barhau i ddarparu ymrwymiad sy'n canolbwyntio ar wasanaeth cyhoeddus cynaliadwy gyda'i ffocws ar newyddion a chynhyrchu gwreiddiol. Serch hynny, ni argyhoeddwyd y Llywodraeth bod achos digonol dros ddileu ymrwymiadau Trwyddedeion Sianel 3 i ddarparu newyddion rhanbarthol, ac eithrio i unrhyw ranbarthau sy'n rhan o gynlluniau newyddion peilot cyn 2012. Bydd yn adolygu'r sefyllfa fel y dylai fod 2013 pan fydd argaeledd a lefel yr ariannu cystadladwy yn cael eu pennu. Serch hynny bydd y Llywodraeth yn galluogi Ofcom i ddod ag ail-werthuso trwyddedau analog Sianel 3 a Sianel 5 ymlaen o flwyddyn. **Ac eithrio newyddion rhanbarthol, mae'r Llywodraeth yn sylweddoli efallai y bydd angen i Ofcom addasu ymrwymiadau gwasanaeth cyhoeddus eraill ITV hyd at, a thu hwnt, i gwblhau'r newid i ddigidol, yn unol â gwerth y trwyddedau, sy'n gostwng. Mae'r Llywodraeth yn fodlon ystyried newid y ddeddfwriaeth os ystyrir bod angen addasu y tu hwnt i bwerau cyfredol Ofcom.**

60 Mewn perthynas â chynhyrchu annibynnol, mae'r Fframwaith Cwotâu a Thermau Masnachu (Quotas and Terms of Trade Framework) yn gweithio'n dda. Mae'r drefn yn ddigon hyblyg i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer cytundebau masnachol sy'n mynd i'r afael â datblygiadau ym maes cyfryngau newydd a modelau busnes arloesol. Mae Fframwaith Hawliau Cyfryngau Newydd (New Media Rights Framework) gwirfoddol newydd y BBC wedi cael cryn ganmoliaeth a dylid ei fabwysiadu'n fwy eang gan gyrff llywodraethol a chyhoeddus sy'n comisiynu cynnwys ar-lein.

61 Mae angen i ni barhau i fuddsoddi mewn **ymchwil ac arloesedd** i alluogi Prydain Ddigidol i gadw i fyny gyda newidiadau technegol chwim ac i fraenaru'r tir ar gyfer cwmnïau newydd. Mae'r DU yn arwain y byd o ran ei rhaglenni ymchwil, a ariennir yn bennaf trwy'r Cynghorau Ymchwil, a fydd yn buddsoddi £120m dros dair blynedd mewn Cynllun Economi Ddigidol (Digital Economy Programme) cydgysylltiedig.

62 Mae gallu Prydain Ddigidol i gyfrannu ei haddewid llawn i'n twf economaidd i'r dyfodol yn gwbl ddibynnol ar gael digon o bobl sydd â'r **sgiliau** cywir yn y lle iawn ar yr adeg iawn i ddatblygu a chymhwyso'r dechnoleg newydd. Mae angen hefyd i ni fynd i'r afael mewn modd mwy systematig â gwendid cymharol Prydain o ran sgiliau isel a chanolradd ac yn y Sgiliau Digidol sy'n benodol i economi fodern. Mae dau gyngor y sector sgiliau, e-sgiliau DU (e-skills UK) a Skillset, wedi cynhyrchu dadansoddiad o'r bylchau yn y ddarpariaeth sgiliau. Buont yn asesu'r ddarpariaeth gyfredol gan wneud nifer o argymhellion manwl i sicrhau llif iach o ddoniau i'r gweithlu digidol proffesiynol, cyflymu datblygiad y gweithlu sy'n bodoli eisoes a galluogi cwmnïau ac unigolion i fuddsoddi yn eu gallu eu hunain o ran sgiliau.

63 Mae sicrhau'r llif iach o ddoniau yn cychwyn yn y system addysg, o'r ysgol gynradd yr holl ffordd at Addysg Uwch. Amcan Cynllun Plant yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yw sicrhau mai'r wlad hon yw'r lle gorau yn y byd i fagu plant a phobl ifainc. Mae Adroddiad Prydain Ddigidol yn dwyn sylw at lawer o ffyrdd y bydd yr agenda ddigidol yn gallu helpu i gyflawni deilliannau gwell i blant a phobl ifainc, gan gynnwys trwy'r Rhaglen Mynediad Cartref, trwy sicrhau bod gan rieni'r sgiliau digidol a'r hyder i gefnogi defnydd diogel, effeithiol a chytbwys eu plentyn ar y Rhyngrwyd, trwy sicrhau cynnwys aml-blatfform lluosog, perthnasol o safon dda i blant a phobl ifainc, a thrwy roi'r sgiliau i'n plant a'n pobl ifainc i wneud y gorau o'r dechnoleg newydd.

64 Ar y lefel cynradd, mae'r Llywodraeth yn cymeradwyo Adolygiad Rose ar y cwricwlwm, sy'n uwchraddio cymhwysedd digidol (TGCh) i gymhwysedd craidd ochr yn ochr â Saesneg, Mathemateg a Datblygiad Personol. Rydym hefyd yn cynnal cynllun i dreialu hawl greadigol

newydd o bum awr yr wythnos a ddarperir gan weithwyr proffesiynol yn y sector creadigol a diwylliannol. Ar y lefel uwchradd mae'r Llywodraeth yn rhoi ar waith rhaglen bwysig o ddiwygiadau i'r cwricwlwm 14-19 oed gan gynnwys pwyslais ar gymhwyso gwybodaeth ddigidol yng nghyd-destun bywyd go iawn. Bydd cymwysterau TGAU mewn Saesneg, Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu sy'n ymgorffori sgiliau gweithredol yn dod yn rhan o'r ffrwd ariannu o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Bydd y Diplomâu ar gyfer pobl ifainc 14-19 mlwydd oed yn TG a Chreadigol a'r Cyfryngau yn gymorth i chwyddo niferoedd y rheiny fydd yn mynd i'r gweithlu digidol proffesiynol gyda'r gymysgedd a ddymunir o sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy, gwybodaeth am y diwydiant ac ymwybyddiaeth fusnes.

65 Ym maes Addysg Uwch byddwn yn cyhoeddi Fframwaith AU newydd yn fuan; bydd hwn yn datgan y ffordd y gellir cymhwyso gweithredaeth ddiwydiannol a ffocws ar sectorau mewn AU, a fydd yn arbennig o arwyddocaol i Brydain Ddigidol fel sector hynod o bwysig sy'n tyfu a hefyd fel sail anhepgor i'r economi ehangach. Bydd yn datgan y ffordd y bydd y Llywodraeth yn sefydlu signalau a chymhellion eglur i brifysgolion fel y caiff rhaglenni newydd eu sefydlu mewn meysydd blaenoriaeth ac y caiff rhaglenni sy'n bodoli eisoes eu hailffocysu. Bydd hefyd yn cynnwys creu'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau (Skills Funding Agency) i sicrhau bod y system sgiliau'n blaenoriaethu'r pethau sydd eu hangen ar sectorau megis technoleg ddigidol a chyfryngau digidol.

66 Un fantais sefyllfa lle gwelir consortia newyddion a ariennir yn annibynnol yn buddsoddi mewn datblygu galluoedd cwmnïau ac unigolion yw y byddant yn darparu canolbwyntiau lleol a rhanbarthol ar gyfer datblygu sgiliau amlgyfrwng. Ar raddfa ehangach mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymagwedd newydd at blannu sgiliau a hyfforddiant wrth gaffael prosiectau a chynlluniau TG o bwys, lle bydd gofyn i'r contractwyr llwyddiannus i sefydlu cynllun hyfforddiant ffurfiol i ddatblygu'r gweithlu prosiectau digidol.

67 Mae'r newid o rwydweithiau analog i rai digidol byd-eang yn galw i ni addasu ein fframweithiau cyfreithiol a pholisi er **diogelwch a sicrwydd**. Mae'r rhan fwyaf o beryglon y byd all-lein - ar wahân i niwed corfforol - yn cael eu dyblygu yn y byd ar-lein. Mae'r hyn sy'n anghyfreithlon all-lein yn anghyfreithlon ar-lein. Ond ar-lein os yw'r troseddwr yn ddigidol mae'r amddiffynnydd neu'r gorfodwr yn rhy aml o'r hanner yn analog, neu o leiaf analog yw'r fframwaith lle mae gofyn iddynt weithredu. Mae angen i ni ddal i fyny, yn arbennig wrth i ni symud i fyd lle mae band eang ym mhob man.

68 Mae'r Rhyngrwyd yn rhwydwaith gwirioneddol fyd-eang sy'n cysylltu bron i ddwy biliwn o ddefnyddwyr ledled y byd. Mae'n rhwydwaith cyfranogol, cynhyrchiol sy'n hwyluso

rhyngweithio, cydweithio a sgwrsio. Mae'n ein galluogi ni i gynnal trafodion a rhannu'n fyd-eang, un o'i phrif gryfderau. Ond oherwydd nad yw wedi ei chorlannu rhwng ffiniau cenedlaethol nid yw'n ddarostyngedig i awdurdodaeth genedlaethol eglur. Mae Adroddiad Prydain Ddigidol yn nodi'r ffordd mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithio i gryfhau sefydliadau rhyngwladol sy'n cydweithio i fynd i'r afael â'r mater.

69 Erys rhan bwysig i'w chwarae ar y lefel cenedlaethol ar gyfer mesurau i ffurfio byd ar-lein diogel. Ar y lefel rhwydwaith mae Seibr-ddiogelwch ar lefel uchel yn ymateb i fygythiadau o du terfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol. Bu'r Llywodraeth yn datblygu ei Strategaeth Seibr-ddiogelwch a bydd yn ei chyhoeddi cyn bo hir. Mae gofyn i'n rhwydweithiau fod yn gadarn rhag ymosodiadau. Safonau gofynnol a gytunir gan y diwydiant ac a fabwysiedir yn wirfoddol yw'r cam cyntaf at baratoi'r DU ar gyfer y gofyniad cyfreithiol uwch ar safonau diogelwch a fydd yn llifo o'r fframwaith Ewropeaidd newydd. Bydd y Llywodraeth yn cynnal ymarfer pwysig yn nes ymlaen eleni i brofi ein gallu cenedlaethol i ymateb i argyfwng telegyfathrebu.

70 Ar y lefel unigol mae'n rhaid i ddefnyddwyr allu cyfathrebu, masnachu a gweithio ar-lein gyda hyder a sicrwydd bod eu data personol yn ddiogel rhag cael eu camddefnyddio neu rhag twyll. Mae'r farchnad yn esblygu ystod gynyddol o gymwysiadau diogelwch personol hawdd eu defnyddio a chefnogaeth wedi prynu. Ond mae rhoi cyngor sylfaenol ynglŷn ag osgoi problemau sy'n wybyddus ar-lein yn gonglfaen i unrhyw ddull diogelwch personol. Mae'r ymgyrch ar y cyd rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant, *Get Safe Online*, yn cynnig siop wybodaeth un stop ar ddiogelwch ar-lein. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda diwydiant i gynyddu effeithiolrwydd yr ymgyrch.

71 Mae angen diwygio'r mecanweithiau presennol ar gyfer diogelu defnyddwyr ar-lein. Mae asiantaethau'n gorgyffwrdd ac mae angen mwy o allu arbenigol i ymdrin â gwahanol heriau ymddygiad defnyddwyr yn y byd ar-lein. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cynnig chwarae rhan gryfach wrth ddiogelu defnyddwyr ar-lein. Ymdrinnir â'i chynllun pum pwynt ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddefnyddwyr, sydd ar fin arddangos ac a fydd yn datgan y ffordd y gall busnes a gorfodwyr yn y DU gydweithio'n well, gwella'r broses o gasglu cudd-wybodaeth a mynd i'r afael â thwyll ar-lein.

72 Data personol yw arian treigl newydd y byd digidol. Mae preifatrwydd a diogelwch y data hynny yn fater o bwys cynyddol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datblygu Cod Ymarfer newydd, "Personal Information Online" i'w gyhoeddi yn nes ymlaen eleni. **Mae'r Prif Weinidog wedi penodi Syr Tim Berners-Lee i greu panel o arbenigwyr a fydd yn darparu gwell defnydd ar ddata cyhoeddus.** Mae hunanreoleiddio effeithiol hefyd yn allweddol bwysig. Mae

egwyddorion arferion da'r Biwro Hysbysebu ar y Rhyngrwyd (Internet Advertising Bureau) ar gyfer darparwyr sy'n casglu ac yn defnyddio data ar gyfer hysbysebu ymddygiadol yn adlewyrchu'r arferion gorau yn UDA, a addaswyd ar gyfer fframwaith Diogelu Data yr UE.

73 O ran mesurau diogelwch ym maes cynnwys ar-lein, unwaith eto mae systemau hunanreoleiddio ac egluro effeithiol gydag adnoddau digonol yn bwysig. Ar gyfer gemau electronig mae'r Llywodraeth yn mabwysiadu'r System Holl-Ewropeaidd ar Wybodaeth am Gemau ar gyfer gemau mewn blychau ac mae'n credu y gellid addasu'r system yn dda i'r byd ar-lein. Ond mae angen gweithredu ychwanegol y tu hwnt i hunanreoleiddio yn erbyn deunydd troseddol ac i sicrhau diogelwch plant ar-lein. Mae Sefydliad Gwyliadwriaeth y Rhyngrwyd (Internet Watch Foundation) a'r system 'sylwi a dileu' ar safleoedd Rhyngrwyd yn cael ei gydnabod yn eang yn rhyngwladol fel model. Ond mae angen ffynhonnell adnoddau sicr. Mae'r Llywodraeth yn herio'r diwydiant i sicrhau bod ganddo ffynhonnell o'r fath a bydd hefyd yn archwilio ar y cyd â'r IWF a'r Comisiwn Ewropeaidd y posibiliad o greu model holl-Ewropeaidd gydag ariannu cymesur.

74 Ar wahân i'w dylanwad ar y fframwaith economaidd a deddfwriaethol cyffredinol, **mae'r Llywodraeth yn effeithio ar yr Economi Ddigidol** mewn pedair ffordd: wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, fel prynwr mawr ar systemau digidol, fel comisiynydd a deiliad data a chynnwys ac fel canolbwynt strategol ar gyfer datblygu nerth digidol Prydain i'r dyfodol. Mae'r Adroddiad Prydain Ddigidol yma yn datgan y camau nesaf ar y daith tuag at Lywodraeth wirioneddol Ddigidol - Llywodraeth dros y we ac nid dim ond ar y we.

75 Mae'r DU ymhellach ymlaen na llawer gwlad arall ar y daith honno. Ond mae disgwyliadau dinasyddion yn codi. Mae'r sector preifat yn diwygio ei arferion busnes ar gyfer y byd digidol yn gyflymach byth. Ac mae'r pwysau ar wariant cyhoeddus yn galw am newid sylweddol o ran effeithlonrwydd y ffordd y darperir pryniadau a chaffael TGCh.

76 Heddiw mae bron i hanner poblogaeth y DU yn defnyddio'r Rhyngrwyd i gael mynediad at wybodaeth am wasanaethau'r Llywodraeth neu gynghorau lleol, neu i gyflawni trafodion Llywodraethol ar-lein. Mae Directgov yn derbyn 14m ymweliad y mis. Mae modd cael arbedion sylweddol trwy'r ddarpariaeth ar-lein - 45% wrth brynu Disc Treth Cerbyd gan y DVLA.

77 Mae rhai gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn cael eu darparu yn llwyr bron ar-lein. Dylai'r symudiad i fand eang 2Mb yr eiliad cyffredinol erbyn 2012 fel safon gwasanaeth sylfaenol fod yn sbardun ar gyfer rhaglen bellach o **Newid y Gwasanaethau Cyhoeddus i Ddigidol**. Trwy wneud hynny, ar-lein fydd y prif ddull mynediad, er y bydd trefniadau eraill i'r bobl hynny na allant gael mynediad i'r gwasanaeth ar-lein. Yn erbyn meini prawf eglur, dylai pob adran

berthnasol yn y Llywodraeth nodi dau wasanaeth o leiaf a allai fod yn rhan o'r rhaglen gyntaf i **Newid y Gwasanaethau Cyhoeddus i Ddigidol** cyn 2012.

78 O ran **caffael**, cafwyd cynnydd sylweddol ar rwydwaith gwasanaethau cyhoeddus rhithwir gyda'r caffael pwysig cyntaf ar gyfer Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus yn digwydd eleni. Daeth cyfrifiadura cwmwl y Llywodraeth, y "Cwmwl-Ll" ("G-Cloud"), gam pwysig yn nes gyda chyhoeddi strategaeth Cyngor y Prif Swyddog Gwybodaeth/Intellect y Llywodraeth, gan ymestyn datblygiad cyfredol yr achos busnes dros fuddsoddi mewn cyfleusterau datblygiad technegol a chyfleusterau corfforol. Mae'r datblygiadau pwysig hyn yn galw am ffocws unplyg er mwyn arolygu safonau a systemau ar draws Whitehall. Mae'r Adroddiad hwn yn argymell y dylai Prif Swyddog Gwybodaeth y Llywodraeth gael 'clo dwbl' ar gymeradwyo pob caffael TGCh sylweddol gan adrannau'r Llywodraeth.

79 Mae data a chynnwys Gwasanaeth Cyhoeddus yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn yr economi ddigidol. Mae'r Llywodraeth wedi croesawu gweledigaeth y Tasglu Pŵer Gwybodaeth (Power of Information Task Force) ac, yng nghyswllt ffynonellau data pwysig ar gyfer arloesedd, fel data geo-ofodol, mae asiantaethau yn sylweddol wella mynediad i ddata a llwybrau trwyddedu cliriach o arloesedd i ddefnydd masnachol ar raddfa fawr.

80 Mae comisiynu gan y Llywodraeth yn cynrychioli traean o'r holl fuddsoddi mewn cynnwys ar-lein proffesiynol yn y DU. Er gwaethaf y canllawiau presennol mae llawer o gomisiynau ar-lein cyhoeddus yn dal i wahardd ailddefnyddio Eiddo Deallusol. Mae hyn yn arwain at bentyrru gwastraffus ar hawliau. Bydd NESTA yn treialu fframwaith Eiddo Deallusol wedi ei symleiddio ar gyfer cyfryngau digidol gan ddod â PACT, Swyddfa'r Cabinet, Gerddi Kew a Chyngor Celfyddydau Lloegr ynghyd.

81 Yn olaf, gweithredir ein cynlluniau ar gyfer datblygu seilwaith a chyfranogiad digidol, gan gynnwys y Newid i Deledu Digidol, Uwchraddio i Radio Digidol a gweithredu band eang cyffredinol a Chronfa'r Genhedlaeth Nesaf trwy nifer o gyrff darparu. Er mwyn sicrhau y gweithredir yr holl weithgarwch hwn mor effeithlon a chydlynol â phosibl, **bydd y Llywodraeth ac Ofcom, ynghyd â phartneriaid eraill, erbyn yr Hydref yn asesu'r posibilrwydd o uno'r grwpiau hyn yn un Asiantaeth Darparu Digidol (Digital Delivering Agency) gyda mwy o allu ac arbedion maint**.

82 Mae Agenda Prydain Ddigidol yn cwmpasu sbectrwm eang o bolisïau. Mae rhai o'r rhain yn gyfrifoldeb i weinyddiaethau datganoledig. Nid yw'r holl fentrau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, felly, yn weithredol ar draws y DU. Mae Llywodraeth y DU yn gobeithio gweithio mewn partneriaeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddarparu economi ddigidol lwyddiannus ar draws y DU ond mae'n sylweddoli efallai y ceir ymagwedd wahanol ar draws y DU mewn rhai meysydd polisi, megis addysg a rhai gwasanaethau cyhoeddus.

83 Mae manylion rhaglen weithredu Prydain Ddigidol i'w gweld ym Mhennod 9 yn yr Adroddiad hwn. Yn fras, mae'r camau sydd yn yr adroddiad hwn yn syrthio i dri chategori. Yn gyntaf, **Canlyniadau** lle rydym wedi cyrraedd penderfyniad terfynol, yn ail, **Cynigion** lle rydym wedi nodi'r camau gweithredu a gynigiwn ar gyfer dadansoddi neu ymwneud pellach ac yn drydydd, **Argymhellion** lle rydym wedi nodi ein barn ar feysydd lle nad oes angen cymryd y camau nesaf yn syth. Bydd rhai o'r camau yn yr Adroddiad hwn yn galw am fesurau deddfwriaethol a bydd Mesur i weithredu'r meysydd hyn yn cael ei gyflwyno cyn gynted ag y bydd amser y Senedd yn caniatáu.

ASTUDIAETH ACHOS

Rhieni: Simon Blatherwick

Mae'r teulu Blatherwick yn ne Llundain yn teimlo eu bod nhw'n gysylltiedig â thechnoleg. Mae gan eu dau fab ifanc chwaraewr MP3 yr un. Maen nhw wedi meistroli Wii ac yn hen gyfarwydd â theledu daearol digidol aml-sianel.

Er bod y teulu'n talu am fynediad cyflym i'r Rhyngrwyd, mae Simon Blatherwick, Cyfarwyddwr Technegol Archaeoleg yn RPS Planning, yn cyfaddef ei fod yn treulio llawer o amser yn rhegi ei ddarparwr gwasanaeth Rhyngrwyd.

Mae'r teulu yn defnyddio ei gysylltiad band eang - pan fydd yn gweithio – ar gyfer adloniant, siopa, ymchwil a gwaith cartref. “Fydda i ddim yn mynd i'r Stryd Fawr bellach i bori mewn siopau diddorol, oherwydd mae'r marchnadoedd mwyaf amrywiol a'r dewis gorau o bethau ar werth ar-lein bellach.”

Ond mae Simon yn dal i boeni ynglŷn â chymaint o gynnwys sydd ar gael ar-lein, a sut i'w oruchwylio. Felly mae'r teulu yn dibynnu ar becyn meddalwedd sy'n cynnwys system ddiogelwch lle mae'r ddau riant yn weinyddwyr a'u plant yn ddefnyddwyr ar y cyfrif.

Cafodd oedrannau'r ddau blentyn eu mewngofnodi ar fanylion y cyfrif, ac mae'r system yn hidlo cynnwys sy'n briodol i ystod oedran eu meibion yn awtomatig. “Yn y pen draw, Dad yw'r heddwas sy'n tynnu'r cebl o'r peiriant,” medd Simon.

Y tu allan i'r tŷ mae'r teulu yn dibynnu ar ffonau symudol i gadw cownt ar ei gilydd. “Mae'r ffaith fod gan ein mab hynaf ffôn symudol yn ein hannog ni mae'n debyg i adael iddo fynd i lefydd y byddem ni'n poeni amdanynt pe na allen ni gysylltu ag e,” yn ôl ei Dad. “Mae'n caniatáu math o ryddid yn Llundain sydd ddim ond ar gael gyda ffôn symudol, siŵr o fod.”